# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**14.02.25**




## Gair gan y Pennaeth ~ *Headteacher's Greeting*

Cawsom ddiwrnod wrth ein boddau Dydd Llun yn dathlu Dydd Miwsig Cymru. Canu, hwyl, dawnsio a mwynhau gwrando! Hyfryd iawn oedd gweld yr offerynnau lliwgar a chreadigol a ddaeth i'r ysgol wrth ailgylchu deunyddiau adre. Diolch i chi fel rhieni am bob cymorth yn creu a chynllunio gyda'r plant.

Fe gynhaliwyd **clyweliadau** unawdwyr Eisteddfod yr Urdd ar Dydd Iau. **Llongyfarchiadau** mawr i bawb a fentrodd ac a berfformiodd yn y clyweliadau. **Llongyfarchiadau** hefyd i bawb a ddaeth i'r brig ac a fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Gylch (Cofiwch ymaelodi â'r Urdd erbyn y penwythnos - nodyn pwysig isod!). **Diolch** yn fawr iawn i'r staff sydd wedi bod yn hyfforddi'r plant i ddysgu'r darnau ac hefyd i Mrs Iona Edwards am feirniadu. **Llongyfarchiadau** gwresg hefyd am ennill y drydedd wobr yn Unawd Telyn yr Eisteddfod Rhanbarth Offerynnol. Gwych!

Cafwyd profiadau lu ar draws yr ysgol eto yr wythnos hon – bu 5C yn cyfansoddi cân am emosiynau gyda neb llai na **Mei Gwynedd**. Bu 2C yn creu ac yn lansio fidio ar **atalnodi** sydd yn sicr gwerth ei wylio (Cliciwch yma). Bu disgyblion ifancaf yr ysgol yn ddysgu am flwyddyn newydd Tseiniaidd a phawb yn dysgu am negeseuon pwysig cadw'n ddiogel ar y we. Mae'r Pwyllgor y Dysgwyr Difyr wedi creu logos arbennig **Pedwar Diben** i'w defnyddio ar draws yr ysgol ac wedi cynnal gwasanaeth heddiw i lansio'r dyluniadau newydd. Diolch i Camilla am helpu gyda'r dylunio. Edrych allan amdanyn nhw!

☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆

We had a lovely day Monday celebrating **Dydd Miwsig Cymru**. Singing, fun, dancing and great music! It was a great delight to see the colourful and creative instruments that came to the school using recycling materials at home. Thank you as parents for all the help creating and planning with the children.

The Urdd Eisteddfod**'s solo auditions** were held on Thursday. **Congratulations** to all who took the initiative and performed at the auditions. **Congratulations** also to everyone who will go on to represent the school at the Eisteddfod Gylch. (Remember that you must join the Urdd by this weekend - important note below!). **Many thanks** to the staff who have been coaching the children to learn the pieces and also to Mrs Iona Edwards for judging. A heartfelt **congratulations** to Anest for her third place in the Solo Harp competition at the County Instrumental Eisteddfod this week. Gwych!

There were many experiences across the school again this week – 5C composed a song about emotions with none less than **Mei Gwynedd.** 2C created and launched a video on **punctuation** that is definitely worth watching (Click here). The school's youngest pupils learned about Chinese new year and everyone learned about the important messages of staying safe on the internet. The **Lively Learners** Committee have created special **Four Purposes** logos for use across the school and held an assembly today to launch the new designs. Thanks to Camilla for helping with the design. Look out for them!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**24.2.25 – 28.2.25**
Gwyliau Hanner Tymor
Half Term Holiday

**06.03.25**
Diwrnod y Llyfr
World Book Day

**07.03.25**
Eisteddfod Ysgol

**08.03.25**
Eisteddfod Gylch yr Urdd
Urdd District Eisteddfod

**13.03.25**
Lluniau Dosbarth
Class Photos

**21.03.25**
Gwasanaeth Dosbarth 2E
2E Class Assembly

**Mawrth 26-28**
**March 26-28**
Taith Preswyl B5
*Year 5 Residential*
(Call of the Wild)

---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.
*Our live calendar is available to download on our school website's homepage.*

## Hwyl fawr, Mrs Herbert!

Bydd nifer ohonoch yn ymwybodol y byddwn yn ffarwelio â'r hyfryd Mrs Herbert yr wythnos nesa. Mae Mrs Herbert wedi gwasanaethu ein hysgol ers deugain mlynedd ac wedi dylanwadwadu ar fywydau **gymaint** o blant dros y blynyddoedd hynny. Mae caredigrwydd, gofal a chariad Mrs Herbert yn gadael eu hôl ar ein plant, ein teuluoedd, ein staff ac ar gymuned gyfan yr ysgol. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus i chi sydd yn llawn atgofion melys gyda theulu a ffrindiau. O waelod calon, diolch am bob peth, Chef Herbert. 🤍🤍



Many of you will be aware that we will be saying goodbye to the lovely Mrs Herbert next week. Mrs Herbert has served our school for forty years and influenced the lives of **so** many children over those years. Mrs Herbert's kindness, care and love leaves its mark on our children, families, staff and on the entire school community. We wish you a long and happy retirement filled with fond memories with family and friends. O waelod calon, diolch am bob peth, Chef Herbert. 🤍🤍

Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Caryl Jones a'r teulu ar enedigaeth ferch fach yr wythnos hon.
💜 Mwynhewch yr amser gwerthfawr ynghyd 💜

Congratulations to Mrs Caryl Jones and the family on the birth of a baby girl this week.
💜 Enjoy your precious time together 💜

**Dyddiadau Bws Beics Tymor y Gwanwyn**
***Spring Term Bus Bike Days***

7.3.25
21.3.25
4.4.25



sustrans
STROLIWCH A ROLIWCH
24 Mawrth–4 Ebrill 2025
BIG WALK AND WHEEL
24 March–4 April 2025

Fel ysgol, byddwn yn ymuno â her **Stroliwch a Rholiwch** *Sustrans* eto eleni. Cynlluniwch ymlaen llaw NAWR – faint ohonoch all deithio i'r ysgol ar feic neu sgwter neu yn cerdded dros y pythefnos rhwng Mawrth 24 ac Ebrill 4? Helpwch ni i ennill gwobrau arbennig i'r ysgol!

https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/cy-GB/Sustrans-BWAW-2025-Welsh-InfoSheet.pdf

As a school, we will be joining the *Sustrans* Big Walk and Wheel challenge again this year. Plan ahead NOW – how many of you can travel to school by bike or scooter or walking over the two weeks between March 24 and April 4? Help us win amazing prizes for the school!

https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/en-GB/Sustrans-BWAW-2025-InfoSheet.pdf

# Diwrnod y Llyfr – World Book Day

**Dydd Iau – Thursday**
**06.03.25**

Gan fod darllen yn beth llesol i gynifer ohonom, byddwn yn dathlu Diwrnod y Llyfr yn gyfforddus ac yn hamddenol. Bydd cyfle i ni drafod ein hoff lyfrau yn yr ysgol ac ymlacio wrth eu darllen. Croeso i chi ddod i'r ysgol mewn dillad cyfforddus i'ch helpu i ymlacio – 'onesies', pyjamas, ac efallai clustog i orffwys! Cofiwch ddod â'ch hoff lyfr gyda chi!

To reflect the fact that As reading is a such a beneficial activity for so many of us, we will celebrate World Book Day comfortably and leisurely. We will have opportunities to discuss our favourite books at school and relax while reading them. Children are welcome to come to school in comfortable clothes to help the relaxation – onesies, pyjamas, and maybe a pillow to rest! Don't forget to bring your favourite book with you!



# Eisteddfod yr Urdd

Mae Eisteddfodau Cylch, Sir a Chenedlaethol yr Urdd ar y gorwel. Os am gystadlu, cofiwch bod **RHAID** bod yn aelod yr Urdd. Mae hyn yn berthnasol i bob cystadleuaeth, e.e. canu, llefaru, dawnsio, celf a chrefft, gwaith cartref, ac ar gyfer cystadlaethau unigol neu grŵp. Mae hefyd angen bod yn aelod os yn cystadlu yn enw'r ysgol neu beidio (gan gynnwys grwpiau eraill fel G-Dance).

Er mwyn ymaelodi â'r Urdd, ewch i Porth yr Urdd: https://www.urdd.cymru/en/join/

Er mwyn helpu'r plant i gyd i ddysgu darnau'r Urdd, rydym wedi creu Gwefan Eisteddfod yr Urdd Gwaelod y Garth 2025. Diolch yn fawr i **Mr Jones** am ei waith arbennig ar hwn. Dyma'r ddolen: https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-gynradd-gwaelod-y-garth?usp=sharing

- - -

The Urdd District, County and National Eisteddfodau are fast approaching. If you wish to compete, remember that you MUST be a member of the Urdd. This applies to all competitions, e.g. singing, recitation, dancing, arts and crafts, homework, and also to individual or group competitions. Children must also be a member if competing in the name of the school or not (including other groups such as G-Dance).

To join the Urdd, visit Porth yr Urdd: https://www.urdd.cymru/en/join/

To help all the children learn the pieces of the Urdd, we have created the Gwaelod y Garth Urdd Eisteddfod 2025Website. Huge diolch to **Mr Jones** for his fabulous work on this. Here is the link: https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-gynradd-gwaelod-y-garth?usp=sharing








# Dydd Miwsig Cymru





## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week